


Crynodeb o Adroddiad Ymchwilio gan:

## Y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc

# LLEOLIADAU Y TU ALLAN I'R SIR

# CRYNODEB O'R YMCHWILIAD

**18 Mai 2018**

CARDIFF
CAERDYDD

**Cyngor Caerdydd**

# CYNNWYS

LLEOLIADAU Y TU ALLAN I'R SIR ........ 1

**CYNNWYS** ........ 2

RHAGAIR ........ 3

**CYLCH GORCHWYL** ........ 4

Y DULL A DDEFNYDDIWYD ........ 5

CANFYDDIADAU ALLWEDDOL ........ 6

ARGYMHELLION ........ 10

# RHAGAIR

Hoffwn ddiolch i aelodau'r pwyllgor a gymerodd ran yn yr ymchwiliad gorchwyl a gorffen i leoliadau y tu allan i'r sir. Hoffwn ddiolch hefyd i'r holl dystion a roddodd dystiolaeth gerbron y pwyllgor yn ystod y broses. Yn olaf, ond nid lleiaf, mae cefnogaeth a phroffesiynoldeb Martyn Hutching yn ystod yr ymchwiliad anodd a heriol hwn wedi bod yn aruthrol, ac rwy'n wirioneddol ddiolchgar am hyn.

Roedd hwn bob amser yn mynd i fod yn ymchwiliad Gorchwyl a Gorffen heriol, diddorol sy'n procio’r meddwl. Y gwir amdani yw bod hwn yn fater sydd ddim yn effeithio ar ein dinas ni yn unig, mae'n effeithio ar awdurdodau lleol ledled y wlad gyfan. Yn ystod y broses, cafodd y pwyllgor y fraint o gyfweld â phobl ifanc yr effeithiwyd arnynt gan leoliad y tu allan i'r sir, felly nid o safbwynt oedolion neu asiantaethau yn unig y seiliwyd y canlyniadau a'r argymhellion arnynt. Mae canlyniadau ac argymhellion yr adroddiad hwn yn seiliedig ar yr hyn sydd orau i'r bobl ifanc a beth rydym ni, fel pwyllgor, yn teimlo yw'r ffordd ymlaen i'r awdurdod lleol; credwn, ymhen amser, y bydd yr argymhellion yn cael effaith gadarnhaol iawn ar bobl ifanc a'u teuluoedd. Bydd yr adroddiad hefyd yn helpu'r Gwasanaethau Plant i barhau i wella yn y blynyddoedd i ddod.

Diolch eto i bawb a gymerodd ran.



**Y Cynghorydd Lee Bridgeman**
**(Cadeirydd)**

# CYLCH GORCHWYL

- Adolygu darpariaeth lleoliadau y tu allan i'r sir, y mathau o ddarpariaeth, cost a'r effaith ar adnoddau.
- Adnabod bylchau yn y ddarpariaeth leol, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg sy'n arwain at yr angen i leoli plant y tu allan i'r sir.
- Adnabod y rhwystrau rhag darparu cymorth ychwanegol yng Nghaerdydd a'r effaith ar blant sy'n derbyn gofal o ran cael eu lleoli y tu allan i Gaerdydd.
- Ystyried cynlluniau a chynigion i wella darpariaeth a phennu effeithiolrwydd y gwelliannau hyn wrth fynd i'r afael â lefelau uchel Caerdydd o ddarpariaeth y tu allan i'r sir.
- Adrodd ar ddarganfyddiadau'r Pwyllgor i'r Cabinet.

# Y DULL A DDEFNYDDIWYD

Cynhaliodd yr Ymchwiliad nifer o gyfarfodydd casglu tystiolaeth gyda'r Swyddog a rhanddeiliaid allweddol.

Cymerodd yr Aelodau Craffu canlynol ran yn y gwaith o gasglu tystiolaeth yn ystod yr Ymchwiliad:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Bridgeman (Cadeirydd) | Y Cynghorydd De'Ath |
| Y Cynghorydd Joyce | Y Cynghorydd Williams |
| Carol Cobert | |

Roedd tîm yr Ymchwiliad yn ddiolchgar i'r staff a'r rheolwyr yn y Gwasanaethau Plant am y cyngor, y sylwadau a'r awgrymiadau agored a gonest a wnaethant.

**Cyfraniadau allanol**

Gwnaeth yr Ymchwiliad hefyd werthfawrogi cyngor, sylwadau a gonestrwydd Cadeirydd Grŵp Cynghori Llywodraeth Cymru, cynrychiolwyr o'r Rhwydwaith Maethu, Voices from Care, Consortiwm Comisiynu Plant Cymru a Chyngor Sir Benfro, a fynychodd i gyd. Bu'r Grŵp hefyd yn ystyried papurau gan ADSS Cymru a Chyngor Blaenau Gwent.

# CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

**Effaith ar Blant sy'n Derbyn Gofal**

**CA1** Mae angen mynd i'r afael â'r diffyg darpariaeth lleoliadau yng Nghaerdydd;

**CA2** Mae cyn-Blant sy'n Derbyn Gofal yn aml wedi dweud wrthym eu bod yn gwerthfawrogi cysondeb yn eu perthynas â gweithwyr proffesiynol a pherthnasau;

**Gweithrediadau strategol**

**CA3** Fel Rhiant Corfforaethol, mae gan Gyngor Caerdydd gyfrifoldeb i sicrhau bod pob plentyn sy'n derbyn gofal yn cael ei ddiogelu a bod ei ganlyniadau'n cael eu gwella;

**CA4** Mae'r cynnydd llethol mewn achosion sy'n dod ger ein bron yn ymwneud ag esgeulustod gyda chynnydd sylweddol mewn trais yn y cartref, materion sy'n cael eu hamlygu fwyfwy o ganlyniad i'r cymorth a ddarperir fel rhan o wasanaethau ymyrraeth gynnar;

**CA5** Mae Grŵp Cynghori'r Gweinidog (GCG) yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i blant drwy weithio i dair ffrwd waith allweddol 1. Gwella Ymarfer, 2. Asesiadau Ymyl Gofal a Risg, 3. Hyrwyddo Sefydlogrwydd. Dylai Cyngor Caerdydd barhau i weithio'n agos gyda GCG wrth gyflymu ei agenda ddatblygu ei hun.

**CA6** Yn enwedig gan fod Caerdydd yn Ddinas sy'n tyfu'n gyflym ac yn hyrwyddo ei hun fel lle gwych i gael eich magu;

**CA7** mae adolygu'r Strategaeth Rhianta Corfforaethol i leihau nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn allweddol i helpu i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ddiogel. Dylai hyn gael ei gefnogi gan ddull strategol clir o gomisiynu a strategaeth leoli wedi'i diweddaru, a chynnwys mwy o ddarpariaeth breswyl arbenigol yng Nghaerdydd, yn enwedig lleoliadau ar gyfer plant dros 14 oed.

**CA8** Mae angen cydweithio mwy ar draws y Gwasanaethau Plant, a'r Cyngor ehangach;

**CA9** Mae strategaethau atal ac ymyrryd effeithiol a chanlyniadau gwell yn allweddol i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal. Ystyrir bod gwaith atal ac ymyrryd yn fwy effeithiol o dan reolaeth lawn y gwasanaethau plant;

**CA10** Mae rhieni plant sydd ag anghenion cymhleth angen gwasanaethau cymorth penodol i feithrin eu gwydnwch a'u galluogi i ofalu am eu plant gartref.

**CA11** Dylid adolygu trefniadau comisiynu lleoliadau er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor system addas at y diben;

**CA12** Ym mis Medi 2017 roedd gan y Cyngor tua 796 o blant sy'n derbyn gofal - wedi cynyddu o 557 o achosion yn 2012-13; a rhagwelodd yr Aelodau y gallai hyn gyrraedd 920 erbyn mis Mawrth 2019.

**CA13** Mae gorwariant o flwyddyn i flwyddyn ac mae'n debygol o barhau am beth amser - mae angen i ni gynnwys hyn yn y gyllideb;

**CA14** Gellir ail-fuddsoddi arbedion a gronnwyd o gynlluniau buddsoddi i arbed, e.e. drwy symud plant preswyl yn ôl i Gaerdydd, gellid ail-fuddsoddi mewn mentrau ataliol a chymorth cynnar;

**Gweithlu Gweithwyr Cymdeithasol**

**CA15** Mae gweithlu gweithwyr cymdeithasol sefydlog a sefydledig yn allweddol ar gyfer lles plant sy'n derbyn gofal yn ogystal â lles y gweithwyr cymdeithasol eu hunain;

**CA16** Rhaid i'r Cyngor wneud popeth posibl i helpu i recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol y gwasanaethau plant;

**CA17** Mae'r model "arwyddion diogelwch" yn rhoi cyfle delfrydol i'r Cyngor wella canlyniadau i blant, lles gweithwyr cymdeithasol a lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal a lleoliadau.

**Lleoliadau**

**CA18** Mae angen i Gaerdydd gael llawer mwy o leoliadau nag sydd ganddi ar hyn o bryd, a lle bo'n bosibl, dylai ddefnyddio ei stoc dai ei hun;

**CA19** Cynhelir adolygiadau misol o leoliadau preswyl y tu allan i'r sir i asesu a ellid bodloni anghenion a lles pob Plentyn yn llawn yng Nghaerdydd;

**CA20** Gan mai Greenhill yw'r unig ysgol arbennig a'i bod ond yn derbyn bechgyn, mae'n rhaid lleoli merched y tu allan i'r sir.

**CA21** Er mwyn annog mwy o bobl i ddod yn ofalwyr maeth, awgrymwyd y dylai'r Cyngor fuddsoddi yn ei Ofalwyr Maeth a nodi ffyrdd o wneud Gwasanaeth Maethu mewnol Caerdydd yn fwy deniadol, megis lwfansau tymhorol, talu ffioedd ychwanegol a ffioedd cadw;

**CA22** Lle bo hynny'n ddiogel, dylai Caerdydd wneud y defnydd gorau posibl o'r holl ofalwyr maeth mewnol lle bynnag y bo modd;

**CA23** Y flaenoriaeth yw i blant gael eu diogelu yn y lleoliad sy'n bodloni eu hanghenion a'u lles orau.

**CA24** Mae cymhlethdod cynyddol achosion a'r niferoedd cynyddol o blant yn effeithio ar argaeledd lleoliadau priodol. O ganlyniad, mae'r broses cyn-baru a chynllunio lleoliadau yn dod yn hanfodol i leoli Plant yn effeithiol, yn enwedig mewn sefyllfaoedd brys;

**CA25** Mae nifer fawr o atgyfeiriadau amhriodol yn cael eu gwneud i Hyb Diogelu Amlasiantaethol y Cyngor (MASH) gan randdeiliaid. Mae angen cefnogi rhanddeiliaid i ddeall pryd i atgyfeirio at MASH a phryd i ddarparu gwasanaethau cymorth cynnar effeithiol;

**CA26** Caerdydd yw un o'r ychydig awdurdodau yng Nghymru i leoli plant 0 – 5 oed y tu allan i'r sir ac mewn lleoliadau annibynnol;

**CA27** Os ydych chi am leihau lleoliadau y tu allan i'r sir, mae'n rhaid i chi newid y dull yn ogystal â newid darpariaeth drwy fentrau buddsoddi i arbed;

# ARGYMHELLION

**A1** Rhaid gwneud pob Lleoliad er budd y Plentyn, gan leihau'r effaith arno ef, ei addysg a'i les. **(CA1 a 2)**

**A2** Gan fod Caerdydd yn ddinas sy'n tyfu'n gyflym ac yn hyrwyddo ei hun fel lle gwych i gael eich magu, dylid gwneud lleoliadau, lle bynnag y bo modd, yng Nghaerdydd. **(CA6)**

**A3** Dylai'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol gynnal asesiad lles o holl weithwyr cymdeithasol y Gwasanaethau Plant dros y 12 mis nesaf. **(CA 15)**

**A4** Rhaid i'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ddatblygu a gweithredu strategaeth recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol yn llawn i annog ymgeiswyr newydd a helpu i gadw staff erbyn 31 Mawrth 2019. **(CA 16)**

**A5** Fel rhieni corfforaethol, rhaid i'r holl staff a Chynghorwyr weithio ar y cyd â'r holl bartneriaid i sicrhau bod pob plentyn yn cael ei ddiogelu. **(CA4, 8 a 10)**

**A6** Y tîm rheoli newydd ar gyfer Pobl a Chymunedau i weithio gyda'r Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol i adolygu strwythur a gweithrediad y gwasanaeth er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio gyda phob rhan o'r Cyngor wrth iddynt ymgymryd â'u dyletswyddau rhianta corfforaethol, erbyn 31 Mawrth 2019. **(CA 3, 10 a 23)**

**A7** rhaid gofyn i swyddogion adolygu'r gwasanaeth cymorth cynnar ac ad-drefnu'r gwaith o reoli'r holl fentrau Atal ac Ymyrryd yn Gynnar i'w galluogi i fod dan reolaeth y gwasanaethau plant o fewn y 12 mis nesaf. **(CA 9)**

**A8** Rhaid datblygu a gweithredu dull strategol o gomisiynu lleoliadau, gwella canlyniadau a lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ddiogel cyn gynted â phosibl. **(CA 7 a 27)**

**A9** Gofynnir i swyddogion yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol adolygu'r trefniadau Comisiynu Lleoliadau erbyn 31 Mawrth 2019. **(CA 11)**

**A10** mae'n parhau i weithredu'r fframwaith Arwyddion Diogelwch, o fewn y 12 mis nesaf, ac yn darparu tystiolaeth o'i effaith. **(CA 17)**

**A11** Gofynnir i Swyddogion adolygu'r galw presennol ar yr Hyb Diogelu Amlasiantaethol er mwyn sicrhau bod partneriaid yn defnyddio meini prawf yn gyson. **(CA 25)**

**A12** Rhaid i swyddogion sicrhau mai dim ond pan fo hynny er budd pennaf y Plentyn y lleolir plentyn 0 – 5 oed y tu allan i'r sir. **(CA 26)**

**A13** Datblygu a gweithredu strategaeth Leoli a ddylai gynnwys recriwtio a chadw Gofalwyr Maeth, gan gynnwys rhaglen hysbysebu barhaus, cymorth ychwanegol, lwfansau a thaliadau cadw, i fod ar waith o fewn y 12 mis nesaf. **(CA 21)**

**A14** Mae'n sicrhau bod adolygiad o'r holl leoliadau maethu gwag, yr Asiantaeth, y Cyngor a pherthnasau yn cael ei gynnal i gadarnhau bod lleoliadau paru sefydlog a phriodol ar gael ar gyfer pob Plentyn sy'n Derbyn Gofal. **(CA 24)**

**A15** Bydd swyddogion yn datblygu a gweithredu rhaglen adeiladu o gartrefi i blant yng Nghaerdydd, gan ddefnyddio pob asiantaeth bosibl, fel prosiect Buddsoddi i Arbed, o fewn y 12 mis nesaf**. (CA18)**

**A16** mae'n sicrhau bod yn rhaid i gyllidebau lleoli blynyddol y dyfodol adlewyrchu'r nifer a ragwelir o Blant sy'n Derbyn Gofal ar bwynt canol y flwyddyn i ddod, **i** helpu i sicrhau nad yw'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gorwario. **(CA 12 a 13)**

**A17** Caiff arbedion a gronnwyd drwy ddychwelyd plant yn ôl i Gaerdydd eu hailfuddsoddi mewn mentrau ataliol a chymorth cynnar. **(CA14, 19)**

**A18** Swyddog i ymchwilio i weld a allai Ysgol Greenhill dderbyn merched i leihau lleoliadau y tu allan i'r sir. **(CA 20)**

**A19 Cynllun Gweithredu -** Aelod Cabinet i sicrhau bod cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu i sicrhau bod yr argymhellion hyn yn cael eu gweithredu o fewn amserlen y cytunwyd arni fel rhan o'r ymateb i'r adroddiad hwn. **(CA 5)**

## Aelodau'r Pwyllgor Craffu



Y Cynghorydd Lee Bridgeman
(Cadeirydd)



Y Cynghorydd Dan De'Ath



Y Cynghorydd Philippa Hill-John



Y Cynghorydd Heather Joyce



Y Cynghorydd Linda Morgan



Y Cynghorydd Jim Murphy



Y Cynghorydd Mike Phillips



Y Cynghorydd Kanaya Singh



Y Cynghorydd Rhys Taylor

**Aelodau Cyfetholedig:**



**Mrs P Arlotte**
Cynrychiolydd Catholig



**Carol Cobert**
Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru



**Ms Rebecca Crump**
Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwyr



**Karen Dell'Armi'**
Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwyr

--

Gwasanaethau Craffu, Cyngor Sir Caerdydd
Ystafell 263, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW
E-bost: barngraffu@caerdydd.gov.uk

(h) 2018 Cyngor Sir Caerdydd